**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Canserau gynaecolegol**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Gynaecological Cancers**

**GC 01**

**Ymateb gan: | Response from: Coleg Brenhinol y Patholegwyr | Royal College of Pathologists**

---

The Royal College of Pathologists
Pathology: the science behind the cure

# Ymateb Coleg Brenhinol y Patholegwyr i ymgynghoriad Senedd Cymru ar ganserau gynaecolegol

**19 Rhagfyr 2022**

## Cefndir

Mae Cyngor Cymru Coleg Brenhinol y Patholegwyr yn croesawu’r cyfle i ymateb i’r ymgynghoriad hwn ar ganserau gynaecolegol.

Fel llwybrau canser eraill, mae dwy dagfa ar lwybr canser gynaecolegol: y gyntaf yw'r amser aros am apwyntiad, a'r ail yw'r oedi rhwng yr apwyntiad a rhyddhau canlyniadau'r profion diagnostig cychwynnol.

Yn ôl data StatsCymru, mae'r naill a'r llall yn cymryd 20 i 25 diwrnod ar gyfartaledd. Mae’r labordy patholeg yn dod yn rhan o'r darlun yn yr ail dagfa. Pan amheuir canser, dylid adrodd ar y biopsïau o fewn saith diwrnod, ond mae'n cymryd mwy na phythefnos mewn rhai byrddau iechyd. Y prif reswm am hyn yw'r cynnydd yn y llwyth gwaith a achoswyd wrth ddod dros COVID, ynghyd â phrinder staff, yn enwedig Patholegwyr ar draws llawer o fyrddau iechyd. Cymhlethir gwaith y Patholegwyr ymhellach yn achos canser yr endometriwm trwy ychwanegu profion arbennig cyfateb a phrofion moleciwlaidd.

## Beth sy'n cael ei wneud?

Mae camau’n cael eu cymryd i annog cydweithio rhwng byrddau iechyd lle mae un adran sy'n ei chael hi’n anodd oherwydd prinder patholegwyr gynaecolegol yn cael ei chefnogi gan un arall sydd â staff digonol ar gyfer yr arbenigedd. Gwneir hyn yn bennaf mewn biopsïau diagnostig wrth sgrinio am ganser ceg y groth. Mae'n golygu y gellir adrodd yn gynt. Fodd bynnag, mae oedi wrth gludo'r sleidiau eu hunain, yn ogystal â chludo profion arbennig yn ychwanegol, yn ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar y broses.

## Beth yw'r ffordd ymlaen?

Gall cofleidio technoleg ddigidol, yn enwedig patholeg ddigidol, helpu i symleiddio'r broses. Mae'n dileu'r angen i gludo sbesimenau neu sleidiau wedi'u paratoi. Gellir lanlwytho’r sleidiau a baratowyd mewn labordai unigol i rwydwaith digidol. Bydd patholegydd mewn unrhyw fwrdd iechyd yng Nghymru yn gallu gwneud yr adroddiad.

Mae gwahanol fyrddau iechyd yn symud ymlaen ar wahanol gyflymder wrth gyflwyno patholeg ddigidol. Defnyddir y dechnoleg hon yn helaeth ar gyfer diagnosio lymffoma ac mae'n golygu bod angen cryn dipyn yn llai o amser ar gyfer adroddiadau arbenigol. Gellir defnyddio'r model hwn ar gyfer diagnosio canserau gynaecolegol hefyd.

## Beth sydd ei angen?

Mae patholeg ddigidol yn flaenoriaeth i fyrddau iechyd, ac mae gwahanol bwyllgorau'n sicrhau bod arweinyddiaeth a strategaethau ar waith ar lefel genedlaethol.

Rydym yn dibynnu fwyfwy ar TG ym maes patholeg ddigidol. Er mwyn i wasanaeth digidol fod yn gynaliadwy ac yn ddibynadwy, mae system cymorth TG gadarn yn hanfodol. Mae labordai patholeg yn cael anhawster yn y maes hwn ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae angen buddsoddi mewn prosiectau Deallusrwydd Artiffisial er mwyn sgrinio a brysbennu biopsïau canser.

## Manylion cyswllt

Cafodd y briff hwn ei gyfansoddi gan Dr Anu Gunavardhan, Cadeirydd Cyngor Rhanbarthol Cymru, Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Cysylltwch â Janine Aldridge, Swyddog Materion Cyhoeddus, os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Ynghylch Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Mae Coleg Brenhinol y Patholegwyr yn sefydliad aelodaeth proffesiynol sydd â dros 11,000 o gymrodyr, aelodau cyswllt a hyfforddeion, 23% ohonynt y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Rydym yn ymroddedig i osod a chynnal safonau proffesiynol a hyrwyddo rhagoriaeth wrth ddysgu ac ymarfer patholeg, er lles cleifion.

Mae ein haelodau'n cynnwys patholegwyr sydd â chymwysterau meddygol a milfeddygol a gwyddonwyr clinigol mewn 17 arbenigedd gwahanol, yn cynnwys patholeg gellol, haematoleg, biocemeg glinigol, microbioleg feddygol a phatholeg filfeddygol.

Gweithia'r Coleg gyda phatholegwyr ar bob cam o'u gyrfa. Rydym yn gosod cwricwla, yn trefnu hyfforddiant ac yn cynnal arholiadau, yn cyhoeddi canllawiau clinigol ac argymhellion arferion gorau, ac yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym yn cynnwys amrediad eang o randdeiliaid er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o batholeg a'i rôl allweddol yng ngofal iechyd pawb. Gan gydweithio ag aelodau, rydym yn cynnal rhaglenni i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i astudio gwyddoniaeth ac ymuno â'r proffesiwn.